

Cyfarfod Cenedlaethol / Bwrdd Rheoli MIC – Cofnodion

Dyddiad Cyfarfod	Dydd Mercher 26 Chwefror 2020	Gweithredydd
Lleoliad	Llwyn Iorwg, Caerfyrddin	
Yn bresennol	<p>Lowri Jones (LJ Cadeirio), Ruth Williams (RW Sir Ddinbych), Nia Thomas (NT Mon), Meirion Davies (MD Conwy), Catrin Devonald (CD Casnewydd), Dewi Snelson (DS MGSG), Nerys Burton (NB Cwm Gwendraeth Elli), Rhidian Evans (RHE sir Benfro), Non Davies (ND Cered), Bethan Crosby (BC CNPT), Amanda Evans (AE Bro Ogwr), Einir Sion (ES RhCT), Thomas Hughes (TH Casnewydd), Llywela Owain (LIO Hunaniaith), Bethan Price (BP BaM), Dean Baker (DB Atawe), Manon Rees-O'Brien (MR-O'B Cdydd a'r Fro), Lis McLean (LMcL Merthyr), Gill Stephen (GS FfW), Iwan Hywel (MIC), Marged Rhys (MIC), Heledd ap Gwynfor (MIC)</p> <p>Cyfarwyddwyr: Huw Prys Jones (Conwy), Win Morgan (Dinefwr), Lloyd Evans (Bro Ogwr), Hefin Gruffydd (RhCT), Gwenno Huws (Bro Morgannwg), Tracy Reeves (Caerffili), Anne England (Merthyr)</p>	
Ymddiheuriadau:	Dyfrig Harris (cadeirydd CNPT)	
1	<p>Cofnodion Cyfarfod Blaenorol</p> <p>Pwyntiau Gweithredu – Gwirio Gohebiaeth WCVA – Pwal yn cyfarfod gyda rheolwr hyfforddiant a marchnata yn Llanrwst cyn hir. Sali Wyn am gyfarfod gyda nhw gan godi pryderon y mentrau gyda'r CVC's lleol, Gill holi os modd mewnbynnu mwy – am holi Sali Wyn.</p> <p>Teithiau Tango – eu gwahodd I'r cyfarfod nesaf.</p> <p>Gwaith ieuentid – gwariant cynghorau sir o safbwynt y Gymraeg a gwaith ieuentid cyfrwng Cymraeg – angen dilyn hyn fyny. RW – a fydd templed / diffiniad o ddarpariaeth gwasanaeth Gymraeg? AE– bwrdd ieuentid dros dro gyda llawer o newidiadau, AE a LJ yn eistedd ar grwp newydd. Angen edrych ar y</p>	<p>LJ / Pwal</p> <p>MIC</p>

strategaeth newydd. Grwp Cymraeg – wedi symud ymlaen yn erbyn y grwpiau eraill sydd yn bodoli, AE am ddiweddarau pawb wedi cyfarfod yn yr wythnosau nesaf, gwybodaeth yn y Bwletin mis Mawrth.

ES – diffinio beth mae'r cyngor sir yn ei wneud i ddarparu yn Gymraeg.

Bwrdd gwaith am wneud y gwaith ar ran y Mentrau, ond mentrau sy'n gweithio gyda ieuenctid a croeso i holi eu siroedd.

Aros cael gweld beth fydd y pwyntiau gweithredu o ran y Mentrau, rhannu'r wybodaeth yn y Bwletin.

Bedwyr ap Gwyn – gwaith maes awyr agored – trafodaeth p.m yn y gynhadledd am brosiectau awyr agored posib. Ei groesawi l'r cyfarfod nesaf.

Ras yr Iaith – angen gwybod manau dechrau a gorffen o fewn y trefi. POB UN Menter i fod yn rhan o hwn, os ddim yn cynnal cymal, cefnogi cymal mwyaf lleol. Rhowch wybodaeth i HapG.

Angen cytundeb pendant gyda Darwin Gray – pa fentrau cwmws mae'n gweithio er eu mwyn? Pwy sydd eisiau bod yn rhan? Pwy sydd eisiau polisi yswiriant – prynu yn bulk?

Hyfforddiant cynllunio ieithyddol – LMcL & Elin Maher – edrych i wneud rhywbeth ar newid ymddygiad (dilyn cyflwyniad Jeremy Evas ddoe)

Cymraeg Byd Busnes – rhannu astudiaethau achos o fewn y mentrau.

Targedau 2020 - e bost Dylan Llyr – wedi sortio'r problem.

AE & MRh

MIC

MIC

Pwal

		<p>Llythyr at y gweinidog – crynhoi prif bwyntiau cynyddu grantiau etc. Fformwla cenedlaethol – cadw'r llythyr mor gryno a phosib gan gadw at y ddau brif bwynt – isafswm grant a chynnydd chwyddiant. Modd trafod fformwlau ynghylch hyn yn ddiweddarach. Y gweinidog yn disgwyl derbyn y llythyr.</p> <p>Calendr – posib ei rannu ar Canva – gadael MRh wybod os yn dymuno derbyn copi.</p> <p>MR-O'B – siarter iaith – l'w gwahodd atom unwaith eto.</p>	<p>MIC</p> <p>MRh</p> <p>MIC</p>
2	Adroddiad gwaith MIC hyd at diwedd Ionawr 2019-20	<p>Noson Wobrau</p> <p>Symud swyddfa fyny grisiau yn Llanrwst</p> <p>Gwyliau – beirniaid allanol fel llynedd, dyddiad cau Mawrth 30</p> <p>Gweinyddu grant y papurau bro – MIC yn gallu talu am swyddog datblygu drwy arian papurau bro.</p>	<p>MRh</p> <p>HapG</p>
3	Adroddiad cyllid MIC hyd at diwedd Ionawr 2019-20	<p>Colled yn y ddwy flynedd diwethaf – ar gwrs i wneud fyny am hwn.</p> <p>Rhan fwyaf wedi talu aelodaeth – atgoffa eraill i'w dalu – os problem, trafod gydag AE neu Pwal.</p> <p>Cymraeg Byd Busnes – LIC yn trafod ffigur Helo Blod am y flwyddyn nesaf – cyllid am fod yn is, LIC am gadw cyllid marchnata, brandio etc eu hunain.</p> <p>Helo Blod – ES (a phawb) – busnesau yn meddwl bod y brand yn chwerthinllyd – peryg o golli swyddogion da, y Gymraeg i weld yn chwerthinllyd – angen neges i fynd yn ol gan y Mentrau. LIC - wedi gwneud grwpiau ffocws, ond heb ddod nol at y mentrau na chwaith y tim CBB. Angen ymateb cyflym, gan bod lansio fis nesaf. Dim rhesymeg tu ol i hyn. GS – cynnig llythyr gan y Mentrau, a'i wneud yn lleol – son am brofiadau lleol.</p>	<p>Mentrau</p>

		<p>Heb ymgynghori gyda'r mentrau sydd wedi peilota'r wasanaeth – diffyg parch llwyr. Angen datblygu beth sydd yn gweithio. DB – ble mae'r dystiolaeth? Oes adroddiad – ble mae modd ei weld? Brand y mentrau a CBB mewn peryg. LMCL – MIC yn rhy agos i LIC.</p> <p>Siomedig nad oedd modd i'r mentrau siarad gyda LIC ddoe – angen gweithredu yn syth – llythyru yn AWR – AE. ES – gwneud gwaith ymchwil ein hunain. Angen trafod heb fynd yn gyhoeddus eto. DS – mentrau ddim i fynd at y llywodraeth, MIC sydd i wneud. Gofyn i swyddogion CBB wneud adroddiad / casglu dystiolaeth / son am eu pryderon, i'w cyflwyno i LIC – drwy Pwal a Daniela. Drafftio llythyr.</p>	<p>Mentrau CBB / MIC</p> <p>Pwal & Lowri</p>
4	Cynllun Gweithredol 2020-21	Edrych drwyddo – bwydo syniadau yn ol, ei ystyried ar y 18fed	
5	UFA	<p>MR-O'B a LJ – trafodaeth prinder bwyd i blant amser gwyliau gyda LIC. Diffyg cynlluniau chwarae a darpariaeth cyfrwng Cymraeg cyffredinol – modd datblygu cynlluniau newydd gyda modd dosbarthu bwyd. Apel i gysylltu gyda'r awdurdodau lleol – ceisiadau i fewn erbyn diwedd Mawrth – swyddog chwarae. Os am ddatblygu hwn, cysylltu gyda'r cyswllt chwarae. Cysylltu gyda LJ os am ragor o wybodaeth, trafod cyd weithio.</p> <p>Miliwn o bunnau rhwng 22 o awdurdodau lleol mewn blwyddyn.</p> <p>DS & LJ - Cyfarfod gyda Sali a Trudy gyda'r Urdd, MyW ac Eisteddfod er mwyn cael cyswllt sut casglu data / nodi dangosyddion – wedi cytuno – cyfiri gweithgareddau – cyfiri <i>one off's</i> iawn; cyfiri cyfres o weithgareddau – cyfiri pob un ohonynt i gael y ffigwr uchaf posib. Digwyddiad unigol ee gig – cyfiri pawb sy'n mynychu, os cyfres o ddigwyddiadau cyfiri mynychwyr unwaith (dim deg gwaith os deg clwb); os trefnu mewn partneriaeth a hwnnw yn un hafal – rhannu o ran mynychwyr; os partner sy'n gwneud y gwaith fwyaf, dim ei gyfrif. E bost am ddod gan DS. Angen trafod am gyfleoedd yn y dyfodol.</p> <p>Dymuno'n dda i CD sydd yn gadael menter Casnewydd. Llongyfarchiadau i NT ar ei dywedd.</p>	<p>Mentrau</p> <p>DS</p>
	GORFFEN		

	Dyddiad Cyfarfod Nesaf		
--	------------------------	--	--